

Adroddiad Geraint Roberts ar ei ymweliad â Vejile, Denmarc ar Hydref 3 – 10, 2003 fel rhan o brosiect rheolaeth Ewropeaidd “Gwreiddiau ac Adenydd” a gefnogwyd yn ariannol gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Cyflwyniad a Chefndir i'r Prosiect.

Mae'r prosiect Arweinyddiaeth a Rheolaeth Ewropeaidd “Gwreiddiau ac Adenydd” hwn wedi ei gynllunio mewn tair rhan gan gychwyn ym Medi 2002 ac wedi ei ddarparu ar gyfer penaethiaid ysgolion mewn tair gwlad Ewropeaidd. Gwahoddwyd naw pennaeth yr un o dair ardal yn Ewrop, sef Tuscany yn Yr Eidal, Vejile yn Nenmarc a siroedd Ceredigion a Chaerfyrddin yng Nghymru i ymgymryd â'r prosiect. Y mae cylch o weithgareddau yn dilyn y patrwm o dridiau o gynhadledd ar faterion arweinyddiaeth a rheolaeth ac yna tridiau ar ymweliad ag ysgol uwchradd ymhob un o'r gwledydd yn eu tro.

Fe gychwynwyd ar y Cylch Cyntaf o weithgareddau ym Medi 2002 yng Nghymru gan orffen ym Mawrth 2003. Fe fu'r Ail Gylch yn Tuscany, Yr Eidal ym Mawrth 2003 gan orffen yn Hydref 2003. Mae'r penaethiaid yn cyd-weithio mewn trioedd rhyngwladol, un o bob un o'r tair gwlad, gan geisio taclo materion arweinyddiaeth yn eu ysgolion gan rannu'r profiad gyda'r partneriaid. Mae'r holl weithgareddau dilynol hyn yn digwydd ar safwe Gwreiddiau ac Adenydd a grewyd yn arbennig ar gyfer rhannu profiadau.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfeirio at yr Trydydd Cylch o weithgareddau a gychwynwyd gyda'r ymweliad â Vejile yn Nenmarc yn Hydref 2003 ac a fydd yn gorffen yn Pasg 2004.

Amlinelliad o'r gweithgareddau a wnaethpwyd.

Yr oedd y Trydydd Cylch o weithgareddau wedi eu lleoli yn sir Vejile yn Ne Jutland, Denmarc gyda dau ddiwrnod o gynhadledd ar arweinyddiaeth a rheolaeth ac yna tridiau mewn ysgolion uwchradd gan gloi gyda diwrnod o gynhadledd ar arweinyddiaeth ac arfarnu. Prif bwrpas y gynhadledd oedd cadarnhau yr hyfforddiant a wnaethpwyd a chanolbwyntio ar y gweithgareddau datblygiadol a oedd wedi digwydd yn yr ysgolion unigol yn y cyfnod ers y gynhadledd gyntaf yn y cylch Cyntaf a thrwy yr Ail Gylch. Yn ystod y gynhadledd fe adolygwyd addysgu y cylchoedd cyntaf gan roi pwyslais ar broffil Hermann yr arweinwyr unigol, modelau hinsawdd ysgolion, arddulliau arweinyddiaeth ac effaith yr addysgu ar yn yr ysgolion unigol. Fe ddaeth hi'n amlwg trwy drafod, dadansoddi sefyllfaoedd a rhannu profiad, bod rhai dulliau arwain yn fwy defnyddiol mewn sefyllfaoedd arbennig. Fe fu'r pwyslais ar ddatblygu sgiliau a

sefyllfaoedd i ddefnyddio dull Hyfforddiant (coaching) unigolion neu grŵp bychan o athrawon fel ffordd o gyflwyno newidiadau yn effeithiol mewn ysgolion. Yr oedd nifer o'r penaethiaid wedi dechrau gweld budd y dull hwn o weithredu ar ddiwedd yr Ail Gylch. Tystiwyd o brofiad a thrwy drafodaeth bod yr arddull Hyfforddiant yn darparu datblygiad proffesiynol tymor hir i athrawon ac yn eu cynorthwyo i adnabod eu cryfderau a'u gwendidau unigryw yng nghyd-destun eu dyheadau.

Yn ystod y dau ddiwrnod cyntaf o gynhadledd fe ddatblygwyd ar y cysyniadau hyn a dyma restr o'r prif weithgareddau yn ystod y gynhadledd yn Kolding, sir Vejle:-

- Dysgu am gyfundrefn addysg Denmarc
- Rhannu tasgau cyn-gynhadledd ar fudd penaethiaid yn ystod Cylch 2 ar lefel bersonol, lefel broffesiynol a lefel sefydliad
- Rhannu addysgu a phrofiadau yn yr ysgolion yn ystod Cylchoedd 1 a 2
- Defnyddio ystod eangach o strategaethau wrth ymdrin â sefyllfaoedd gwahanol
- Creu diwylliant o lwyddiant a chynnydd
- Ceisio defnyddio dull hyfforddiant fel ffordd o hyrwyddo newid a chynnydd
- Ceisio creu hinsawdd hunan-arfarnu mewn ysgolion
- Ennill hyder wrth wneud pethau yn wahanol
- Creu timau mewn ysgolion
- Cael trafodaethau ar amcanion ysgolion
- Er yr angen i fod yn sensitif wrth drafod pobl mae'r angen hefyd i fod yn glir ac yn ddi-amwys wrth nodi bwriadau
- Sesiynau ar Hyfforddiant fel dull hyrwyddo newid trwy ofyn cwestiynau penagored, gwrando yn weithredol a hyrwyddo symud ymlaen yn gadarnhaol. Yna sesiwn yn adlewyrchu ar hyfforddiant fel dull a methodoleg.

Yr oedd yr ail ran o'r wythnos yn cynnwys tridiau fel triawdau mewn ysgolion yn sir Vejle, Denmarc. Fe fues yn bennaf yn ysgol gymnasiwm Munkensdam,

Kolding yn ne-ddwyrain Jutland. Mae gan Ddenmarc gyfundrefn amrywiol o ysgolion gyda disgyblion yn gyffredinol yn dewis math o ysgol megis, academaidd, galwedigaethol a thechnegol wrth gyrraedd 16 oed. Ysgol academaidd yn bennaf yw'r gymnasiwm ar gyfer myfyrwyr 16 – 19 oed gyda chysiau yn para tair mlynedd. Y mae tua 450 o fyfyrwyr yn yr ysgol yn derbyn gwersi am tua 32 o oriau allan o 42 o oriau a ddarperir. Mae oriau yr athrawon yn hyblyg hefyd gan fynychu yr ysgol ar gyfer gwersi yn unig ac yn cael tua diwrnod yr wythnos allan o'r ysgol ar gyfer gwaith marcio a pharatoi. Mae gwersi unigol yn para awr a hanner yn yr ysgol hon. Mae athrawon gwyddoniaeth a mathemateg yn dysgu am tua 10 awr yn wythnosol gydag athrawon iaith a phynciau'r dyniaethau yn dysgu am 18 awr yn wythnosol. Adeiladwyd yr ysgol yn 1981 ac roedd yr adeilad yn creu awyrgylch hamddenol braf ac anffurfiol. Mae tua 20 folkeschool yn bwydo Munkensdam.

Cafwyd cyfle hefyd i ymweld ag ysgolion eraill a sefydliadau addysgol yn yr ardal. Un o'r rhain oedd folkeschool yn Borkop, tua 30 km o Kolding, sef ysgol ar gyfer 480 o blant rhwng 6 a 16 mlwydd oed ac a adeiladwyd yn 1977. Hefyd fe ymwelwyd ag ysgol ddylunio yn Kolding ar gyfer myfyrwyr dros 19 oed ac yn astudio ar lefel prifysgol; un o ddau sefydliad o'r math yn y wlad. Mewn ysgol alwedigaethol yn Esbjerg fe welwyd y dewis arall sydd yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion 16 oed ar ddiwedd eu cyfnod mewn folkeschool. Mae'r cysiau ar gyfer y 600 o fyfyrwyr yn rhai galwedigaethol a busnes yn bennaf gyda chysiau byr ar safle arall. Fe ymwelwyd hefyd ag ysgol Petersmindenskolen yn Vejle, folkschool ar gyfer 480 o blant rhwng 6 a 16 mlwydd oed, ysgol a oedd wedi derbyn £5m ar gyfer llyfrgell newydd, £3m ar gyfer addasu theatr a £2.2m ar gyfer cyfleusterau anghenion arbennig, ar cyfan mewn ysgol lle roedd adnoddau ardderchog eisoes!

Dyma grynodedb o'r hyn a gyflawnwyd:-

- sgysiau a dialogau hir gyda phenaethiaid
- sgysiau gyda'r dirprwyon a staff gyda chyfrifoldebau arbennig
- taith o gwmpas pob ysgol
- arsylwi 3 gwrs, awr a hanner yr un mewn Mathemateg, Daeryddiaeth a Saesneg mewn ysgol gymnasiwm
- sgysiau gyda 2 ddirprwy bennaeth
- trafod gyda rhai myfyrwyr
- tynnu lluniau i greu cyflwyniad powerpoint ar gyfer Y Strade

- cyfarfodydd triawd yn trafod arddull arweinyddiaeth a gweledigaeth y pennaeth a thrafod sylwadau y ddau bennaeth arall am y wybodaeth a gasglwyd am yr ysgol.

Perthnasedd y gweithgaredd i'r rôl fel Pennaeth

Fe ddylai unrhyw ymweliad â sefydliadau addysgol mewn gwlad arall, gyda chwmni o addysgwyr yn dilyn rhaglen strwythuredig o weithgareddau, bod yn fuddiol yn broffesiynol ac hefyd yn fwynhad. Ar ddiwedd yr ymweliad medraf restru y canlynol fel rhai o'r ffyrdd y mae'r gweithgareddau wedi bod yn berthnasol i mi fel athro a phennaeth.

- Fe gadarnhawyd y wybodaeth a'r sgiliau arweinyddiaeth a rheoli yn ystod y gynhadledd ar ddechrau ac ar ddiwedd yr wythnos. Roedd hyn yn fuddiol iawn yn enwedig yng nghyd-destun y proffil Hermann personol a ddarparwyd ar gyfer pob pennaeth ar gychwyn Cylch 1. Fe seilwyd yr holl weithgareddau ar ddamcaniaethau ac athroniaeth ddiweddar ym myd arweinyddiaeth ac addysgu.
- Fe ddatblygwyd sgiliau arwain hefyd yn enwedig sgiliau holi, mynegi safbwynt yn seiliedig ar ffeithiau ar yr hyn a arsylwyd, cynnal dialog a pharhau gyda threilau'r broses o hyfforddi cyd-weithwyr.
- Cyfle i drafod gyda darparwyr o wledydd eraill materion arweinyddiaeth a rheoli sydd yn berthnasol i ysgol fy hun.
- Mae Veijle yn ardal lewyrchus yn Nenmarc ac mae lefel cyllido ar adeiladau ac adnoddau yn llawer uwch nac yw yng Nghymru; roedd hyn wedi creu argraff ar bob un o'r penaethiaid. Wedi dweud hyn nid oedd lefel adnoddau mewn ystafelloedd dosbarth yn well nac yng Nghymru na'r strwythurau sydd yn codi safonau yn ein hysgolion ni. Roedd lefel cynllunio mlaen a darparu ar gyfer y 30 mlynedd nesaf yn unol â gofynion cwricwlwm yn anhygoel!
- Nid oes strwythurau adrannol nac atebolrwydd yn bodoli yn ysgolion Denmarc a'r farn ymhlith y penaethiaid o Gymru yw nad yw'r gwersi na'r addysgu yn heriol iawn; mae'n ymddangos mai ychydig bwysau sydd yn bodoli yn ysgolion Denmarc.
- Yn ychwanegol at yr adnoddau ardderchog a llefydd dysgu hael, mae maint dosbarthiadau hefyd yn ddigon bach; yn wir mae'r ysgolion yn

gymharol fach ac mae'r ffaith bod yr holl ystod oedran mewn folkeschool ar un safle yn golygu bod y grwpiau blwyddyn hefyd yn fach, tua 55.

- Un o fanteision pendant ysgolion Denmarc yw'r pwyslais ar werthoedd a'r berthynas agos rhwng y Pennaeth a'r disgyblion a'r athrawon. Fe ddaw hyn o'r cartrefi a'r gymuned yn gyffredinol ac yn cael ei gynnal yn naturiol yn yr ysgolion gan nad oes gwersi ABCh yn ysgolion y wlad.
- Bod yn rhan o ddeialog proffesiynol yn trafod materion arweinyddiaeth gyda phenaethiaid profiadol mewn sefyllfa addysgol real.

Y manteision i'r gwaith fel Pennaeth wrth geisio gwella addysgu a dysgu.

Yn dilyn yr ymweliad hwn yr wyf yn medru rhestru nifer o fantaeision wrth geisio gwella addysgu a dysgu yn fy ysgol fy hun a dyma rai ohonynt:-

- Mae ysgolion Denmarc, er yn fwy ffafriol o ran adeiladau ond nid o reidrwydd o ran adnoddau nac ysgolion Cymru, yn sefydliadau hamddenol iawn ac mae'r llefydd dysgu hael yn cyfrannu at hyn, nid yw'r athrawon yn herio'r disgyblion o ran disgwyliadau nac ychwaith yn pwysu arnynt i gyflawni eu potensial. Roedd pob un o benaethiaid Cymru yn tystio i hyn ar ddiwedd yr ymweliad.
- Ar y cyfan yr oedd yr addysgu a welwyd gan y penaethiaid o Gymru yn ddigon boddhaol, heb fod yn heriol o ran disgwyliadau, nac yn amrywiol o ran strategaethau. Yn y folkeschool yr oedd y pwyslais ar fwynhau a chwarae gemau wrth ddysgu yn amlwg. Ychydig iawn o hyfforddiant a gynigir i athrawon yn Nenmarc er fod peth pwyslais yn ddiweddar ar hyfforddiant TGCh.
- Mae prinder atebolrwydd yn perthyn i ysgolion Denmarc, prinder strwythurau staffio a chyfrifoldebau ar lefel yn is na'r dirprwy; yn wir nid oes arweinwyr pwnc yn bodoli yn yr ysgol. Credaf bod hyn yn anfanteisiol mewn ysgol ac mae'n pwysleisio y potensial sydd gan rai newidiadau diweddar mewn addysg yng Nghymru, megis rheoli perfformiad, ar gyfer gwella addysgu a chodi safonau.
- Yn yr un modd, credaf bod prinder arweiniad ynglŷn â chynnwys y cwricwlwm, asesu, dulliau dysgu, hyfforddiant athrawon newydd, hyfforddiant mewn swydd ac ati yn Nenmarc sydd yn arwain ni i werthfawrogi y datblygiadau sydd wedi digwydd yng Nghymru yn ddiweddar.

- Mae ysgolion Denmarc yn ceisio datblygu rôl athrawon yn ychwanegol at ddysgu yn yr ystafell ddosbarth trwy sefydlu strwythurau bugeiliol a rhaglenni ABCh ac mae hyn eto dangos elfen o gryfder mewn ysgolion Cymru.
- Nid oes prosesau monitro nac hunan-arfarnu gan ysgolion Denmarc ac mae hyn yn llesterio rhywfaint ar wella addysgu a chodi safonau.

Y manteision yr wyf yn bwriadu eu rhannu a datblygu ar gyfer fy ysgol, yn arbennig o ran codi safonau.

Fe fu'r profiad o ymweld ag ysgolion eraill mewn gwlad dramor yn fuddiol iawn a charwn annog athrawon a rheolwyr eraill i ddefnyddio'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael i ymweld â sefydliadau addysgol yng Nghymru, Lloegr a gwledydd tramor. Er y gwahaniaethau sylfaenol rhwng ysgolion yng Nghymru a Denmarc, y mae'r profiad o ymweld ac adlewyrchu ar ysgolion yn werthfawr a charwn gynnig yr awgrymiadau canlynol ar gyfer eu datblygu ar gyfer Ysgol Y Strade.

- Cyflwynwyd yr angen am weledigaeth glir ar gyfer ysgol ac roedd y patrwm Ewropeaidd yn pwysleisio y dylai'r weledigaeth gynnwys – disgwyliadau uchel, plant yn mwynhau gwersi, plant yn hapus a diogel, pob plentyn yn gwneud yn dda, anelu at fod yr ysgol orau, digon o weithgareddau a bod yr ysgol yn paratoi disgyblion ar gyfer bywyd a gwaith. Does dim yn newydd yn y rhestr hon, ond pa mor lwyddiannus ydym yn llwyddo i wneud hyn ar gyfer pob disgybl?
- Gwneud ymdrech fwriadol i drafod materion arweinyddiaeth a rheolaeth yn gyson gydag aelodau y tîm rheoli a cheisio gwella'r ddarpariaeth a gynnigir i ddisgyblion yn yr ysgol; yn yr un modd lle mae diffygion mewn arweinyddiaeth neu reolaeth yn cael eu hamlygu, gwneud ymdrech bwriadol i sicrhau na fydd yr un peth yn digwydd eto a cheiso meddwl am ffyrdd gwahanol o weithredu.
- Ceisio lledaenu'r neges bod y gweithdrefnau sydd yn bodoli yn yr ysgol yn rhai sydd yn hanfodol ar gyfer gwella'r ysgol a chodi safonau. Mae defnyddio prosesau o gynnal hunan-arfarniad adran, llunio cynllun datblygiad adran a gweithredu rheoli perfformiad yn brosesau nad ydynt yn bodoli yn ysgolion Yr Eidal a Denmarc ac mae hyn yn llesteirio datblygiad. Yn yr un modd nid oedd arweinwyr pwnc na rheolwyr canol yn bodoli yn ysgolion y ddwy wlad ac yr oedd hyn hefyd yn cael ei bwysleisio fel ardal a oedd yn medru creu anawsterau wrth wella ysgol.

- Oherwydd y prinder strwythurau yn ysgolion Denmarc, y mae cryn dipyn o hyblygrwydd yn bodoli er mwyn llwyddo i addysgu plant am 42 awr yn wythnosol; mae hyn yn neges ar gyfer ysgolion Cymru.
- Datblygu hyfforddiant fel dull o weithredu, gweithio gyda grwpiau llai o athrawon, gan fynd ati i wella pobl a rhannu gweledigaeth.

Sylwadau personol am y gweithgareddau a'u heffaith ar fy natblygiad proffesiynol.

Fel yr ydwyf wedi ei grybwyll eisoes, yr wyf wedi elwa'n sylweddol o'r ymweliad, y gynhadledd a'r gweithgareddau yn Nenmarc yn ystod Cylch 3 fel yn Yr Eidal yn ystod Cylch 2. Dyma grynodedb o'r ffyrdd yr wyf wedi elwa'n bersonol o'r gweithgareddau:-

- Gweithio ar faterion arweinyddiaeth gyda phenaethiaid eraill a gweld pennaeth arall yn gweithio
- Cael proffil Hermann personol a dadansoddi ardaloedd o gryfder a gwendid
- Dysgu ac ymarfer sgiliau hyfforddi a chreu dialog i ddadansoddi sefyllfa yn seiliedig ar ffeithiau
- Cymhwyso gwybodaeth am ysgolion Denmarc (a'r Eidal), yn gryfderau ac yn wendidau, ar gyfer Ysgol Y Strade
- Cael ein hannog i wneud pethau yn wahanol i'r ffordd draddodiadol arferol sydd yn bodoli mewn ysgolion Cymru.

Diwedd glo.

Fe werthfawrogir y gefnogaeth ariannol a roddwyd gan Gyngor Addysgu Cyfferdinol Cymru tuag at gostau teithio, cyflenwi a llety am ran o'r cyfnod a ddisgrifiwyd yn y cais. Fe roddwyd cefnogaeth ariannol tuag at lety yn ardal yr ysgol yn Nenmarc gan yr awdurdodau yn Vejile.

Geraint Roberts,
Ysgol Gyfun Y Strade,
Llanelli.
SA15 4DL Tachwedd 2003